

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/01/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell
Iwan Hughes
Barbara Warren

Thomas Victor Jones
John Brinley Jones
Rhodri Ellis Owen

Greta Hughes
Clair Russell Griffiths
Evan Glyn Thomas

William Roger Jones
William Penri Jones
Rhian Hughes-Jones
(Clerc)

1. Ymddiheuriadau

Dim

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 26/11/2018

Derbyn Cofnodion 26/11/2018 yn gywir ac wedi eu arwyddo gyda man newidiadau.

4. Unrhyw Fater Brys

- Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn â'r yswiriant gan Came & Company mae'r pwyllgor yn cynnig i'r Clerc ofyn am fwy o fanylion gan y cwmni.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn mainc sydd wedi eu creu o ddefnydd sydd wedi ei ailgylchu. Diolch yn far iawn am y rhod yma gan Gyngor Gwynedd. Trafodwyd nifer o leoliadau ar gyfer y fainc ond mae'r pwyllgor wedi penderfynu eu gosod yn lle mainc sydd wedi dirywio ac angen eu hadnewyddu ar ben y mynydd.

5. Etholiadau

Croesawu Evan Glyn Thomas i'r pwyllgor a'i longyfarch am ennill y sedd.

Nodwyd y cadeirydd Angela Russell yn y cyfarfod blaenorol ei bod yn siomedig gyda'r penderfyniad ac yn edrych i ymddiswyddo er cynnig ei sedd i Ann G Rowe gan ei bod yn ymgeisydd cymwys iawn ac yn gallu cynnig llawer i'r Cyngor Cymuned.

Nodwyd y Clerc eto nad yw unigolyn yn gallu trosglwyddo ei sedd i unigolyn arall. Mae'r pwyllgor yn awyddus i dderbyn hyn yn ysgrifenedig gan Gyngor Gwynedd.

Nodwyd y Clerc hefyd nad yw Angela Russel wedi sefyll i lawr yn ffurfiol gan nad yw wedi gyrru hyn yn ysgrifenedig i'r Clerc.

Mae'r Clerc am ofyn am fwy o fanylion at gyfarfod mis Chwefror.

6. Rheoliadau Sefydlog

Mae'r Clerc wedi darparu copïau terfynol o;

- Aseiad Risg
- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Polisi Iaith
- Rheolau Cyfryngau Cymdeithasol
- Cod Ymddygiad

Mae William Roger Jones yn cynnig (eilydd Rhodri Owen) bod y rheoliadau yn gywir a chyfreithlon ac mae'r cynnig yn llwyddiannus gyda'r is-gadeirydd Greta Hughes y neu arwyddo.

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/01/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

7. Archwiliad BDO

Mae'r Clerc yn egluro bod y BDO wedi dod n ol gyda nifer o bwyntiau yn codi o'r archwiliad allanod;

| Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys? | Beth sydd ei angen i ddatrys y mater? | Pam mae hyn yn angenrheidiol? |
|---|---|--|
| Ni chafodd cysoniad banc ei ddarparu gyda'r ffurflen flynyddol. | Mae angen i chi ddarparu copi o naill ai gysoniad banc neu ddatganiad(au) banc ar gyfer 31 Mawrth 2018 sy'n cefnogi'r ffigur ym mlwch 9. Dylai'r cysoniad gynnwys pob cyfrif banc, cymdeithas adeiladu ac arian sydd wedi'u cysoni ac unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y cyngor. | Mae hon yn ddogfen safonol a rhaid ei darparu gyda'r ffurflen flynyddol. |
| Yn ein harchwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, cafodd y materion canlynol eu codi gennym ac mae angen tystiolaeth arnom i ddangos eu bod wedi cael eu datrys erbyn hyn: - Cod Ymddygiad wedi ei fabwysiadu ond heb ei gofnodi - Methu â darparu dogfennaeth CThEM | Mae angen i chi ddarparu'r cofnodion lle mae'r Cod Ymddygiad bellach wedi cael ei fabwysiadu a darparu'r ddogfennaeth CThEM, | Mae gofyn i ni ddilyn i fyny ar faterion rydym wedi eu codi mewn archwiliadau blaenorol. |
| Mae'r derbyniadau eraill wedi cynyddu £2,937, (59%), a chafwyd esboniad am hyn, ond nid oedd digon o wybodaeth i ni ddod i gasgliad. Mae'r esboniad a ddarparwyd yn nodi ad-daliad yswiriant o £5,336.60 sydd wedi gor-esbonio'r amrywiant ac sy'n awgrymu fod gwerth rhai eitemau sylweddol eraill wedi gostwng. | Mae angen i chi ddarparu dadansoddiad manwl o'r cynnydd hwnnw, yn cynnwys y symiau dan sylw. | Mae gofyn i ni ddeall y rhesymau dros gynydd neu ostyngiad yn y datganiadau cyfrifo. |
| Mae'r taliadau eraill wedi cynyddu £4,486, (31%), a chafwyd esboniad am hyn, ond nid oedd digon o wybodaeth i ni ddod i gasgliad. Mae'r esboniad a ddarparwyd yn nodi gwariant ychwanegol i drwsio'r Toposcope o £6,703.92 sydd wedi gor-esbonio'r amrywiant ac sy'n awgrymu fod gwerth rhai eitemau sylweddol eraill wedi gostwng. | Mae angen i chi ddarparu dadansoddiad manwl o'r cynnydd hwnnw, yn cynnwys y symiau dan sylw. | Mae gofyn i ni ddeall y rhesymau dros gynydd neu ostyngiad yn y datganiadau cyfrifo. |
| Mae costau staff wedi Gostwng £6,393, (64%), a chafwyd esboniad am hyn, ond nid oedd digon o wybodaeth i ni ddod i gasgliad. Mae'r esboniad a ddarparwyd yn nodi fod y clerics wedi derbyn cyflog am 9 mis o'r flwyddyn ariannol yn unig ond nid yw'n cynnwus unrhyw ffigurau cefnogi. | Mae angen i chi ddarparu dadansoddiad manwl o'r gostyngiad, yn cynnwys y symiau dan sylw. Er enghraifft, mae angen i chi gynnwys nifer yr oriau a weithiwyd gan y clerics y llynedd o'u cymharu ag eleni, ynghyd â'r gyfradd yr awr, er mwyn esbonio'r lleihad. | Mae gofyn i ni ddeall y rhesymau dros gynydd neu ostyngiad yn y datganiadau cyfrifo. |
| Nodwn nad yw'r cyngor wedi darparu unrhyw ymateb i Atodiadau 3 a 4. | Mae angen i chi ddarparu'r dystiolaeth a'r esboniadau angenrheidiol fel sy'n cael eu disgrifio yn Atodiadau 3 a 4. Mae Atodiadau 3 a 4 wedi eu hatodi i'r e-bost hwn er hwylustod. | Mae angen i ni dderbyn ymateb i Atodiadau 3 a 4 er mwyn cwblhau cyfran sylweddol o'n gwaith archwilio. |

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russlle

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/01/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

8. Cae Chwarae

Yn dilyn y Clerc yn cysylltu i gael tendr i wneud y gwaith ffensio mae ond wedi derbyn un pris gyda pris arall yn cael ei gyflwyno drwy law John Brinley Jones heno. Mae hefyd yn disgwyl am un pris arall.

Nodwyd bod yn bwysig cael ffens sydd yn ddiogel cyn gyntad a bod modd. Mae'r aelodau yn bryderus am safonau diogelwch ac yn awyddus i edrych ar deddfwriaeth sydd yn berthnasol. Cytunwyd i'r Clerc edrych i fewn i hyn ac adrodd yn ol i'r pwyllgor.

Nodwyd bod gwaith wedi ei wneud ei ddechrau ar y trac beics.

9. Cyllideb 2019-2020

Gwybodaeth gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r amser wedi do di edrych ar osod PRESEPT 2019 – 2020. Ni does cynllun busnes na chyllideb yn ei le ar hyn o bryd. Mae John Brinley Jones yn gynnig (eilydd; John Penri Jones) £19,000 ac mae'r pwyllgor yn cytuno. Bydd y Clerc yn gyrru'r ffurflen i Gyngor Gwynedd cyn gynted a bod modd. Bydd eisiau edrych ar gyllideb 3-5 mlynedd yn ogystal â chyllideb.

10. Toiledau Cyhoeddus

Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn gwybodaeth am gytundeb 2019-2020, gyda Chyngor Gwynedd yn cynnig yr un telerau ac eleni am y ddwy flynedd nesaf. Mae John Penri Jones yn cynnig (eilydd; John Brinley Jones) ein bod yn derbyn y telerau. Bydd y clerch yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i gadarnhau.

11. Ymgynghoriad Cyhoeddus Polisi Cynllunio

Mae uned Polisi Cynllunio wedi gyrru ymgynghoriad i'r Cyngor Cymuned;

- Tai Fforddiadwy
- Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy
- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid – Ymgynghoriad Pellach

Mae'r pwyllgor yn awyddus i edrych dros yr ymgynghoriadau ac yn barod i adrodd yn ôl i'r Clerc gydag unrhyw sylwadau er eu cyflwyno.

Ceisiadau Cynllunio

C18/1078/38/LL

Addasiadau allanol a codi balcony

The Hollies, Llanbedrog.

Gwrthwynebu ar sail gor ddatblygiad o'r safle ac yn tynnu sylw oddi wrth yr ardal hanesyddol. Mae'n agos i'r eglwys ac yn ddyluniad sydd yn sefyll allan.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y clerch - Rhian Hughes-Jones

Mis Rhagfyr 2018 a Ionawr 2019 **£666.66**

Victor Jones – Ad-daliad postio **£1.50**

Richard Hughes – Gwaith ar y meinciau **£ .**

Llechen Llyn Ltd – Llechen Cof Milwyr **£402.00**

Glasfryn – Coeden Nadolig **£94.80**

Arfon Parry – Gwefan **£28.00**

Iwan Hughes – Ad-daliad goleadau Nadolig **£9.25**

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russlle

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/01/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Taliadau wedi eu derbyn

DIM

Gohebiaeth

1. **Comisiynydd Pobl Hyn Cymru** - Cylchlythyr Arbenning
2. **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** - Gweithdai 'Atgof Byw'
3. **Cyngor Gwynedd** - Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?
4. **Alzheimer's Society Cymru** - Cynhadledd 2019 Codi Llais ar weithredu
5. **Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr** - Canllaw gwybodaeth – Help i gwsmeriaid dŵr sy'n cael trafferth talu.
6. **Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd** – Holiadur
7. **Un Llais Cymru** - hyfforddiant mis chwefror - y Gogledd

Cais am gyfraniad

1. **Llyfrau llafar Cymru**
2. **Plas Carmel, Anelog** – Adfer hen adeilad capel unigryw.
3. **Dawns i Bawb** – Mudiad i hybu dawns imewn gymunedau
4. **Theatr Bara Caws** – Cais am cofnogaeth ariannol